Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Pwyllgor Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau

Adolygiad Polisis o Anghenion Addysgol Arbennig
Rhan 2: Fframwaith Asesu Statudol (Datganiadau)

Mai 2006

Gallwch weld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol: **www.cymru.gov.uk**

Gwasanaeth y Pwyllgor

Stephen George - Clerc y Pwyllgor
Ruth Hatton - Dirprwy Glerc y Pwyllgor
Joel Steed - Swyddog Cymorth y Pwyllgor

I gael rhagor o gopiau called o'r ddogfen hon cysylltwch â:

Gwasanaeth y Pwyllgor
Y Pywllgor Aggysg a Dysgu Gydol Oes
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: 029 2089 8618
Ffacs: 029 2089 8021
E-bost: **education.comm@wales.gsi.gov.uk**

ISBN 0 7504 4098 8 APS/659/1/05-06 © Hawlfraint y Goron 2006

Cynnwys

Rhagair y Cadeirydd

Aelodau'r Pwyllgor

Y Prif Adroddiad **Tudalen**

Adran 1 - Cyflwyniad 1

Adran 2 - Gwybodaeth Gefndir 3

Adran 3 - Materion sy'n Deillio o'r Adolygiad 7

Adran 4 - Ystyried y Materion 13

Adran 5 - Casgliad a Chrynodeb o'r Argymhellion 25

Atodiadau -

A. Rhestr o'r Ymatebwyr i'r Ymgynghoriad 31

B. Dadansoddiad o'r Ymgynghoriad 33

C. Rhestr o Bapurau a Thrawsgrifiadau'r Cyfarfodydd 37

D. Y Grŵp Cyfeirio 41

E. Rhestr o Dermau 43

Rhagair y Cadeirydd

Ym mis Gorffennaf 2003, penderfynodd y Pwyllgor gynnal adolygiad o anghenion addysgol arbennig (AAA) mewn tair rhan, sef adnabod ac ymyrryd yn gynnar, y broses o roi datganiadau, a'r trefniadau pontio yn y system addysg a dysgu gydol oes. Cyhoeddwyd yr adroddiad ar ran gyntaf yr adolygiad ym mis Tachwedd 2004. Hwn yw'r adroddiad ar ail ran yr adolygiad ynghylch y fframwaith asesu statudol (datganiadau) ar gyfer plant ag AAA. Mae'r Pwyllgor yn bwriadu cychwyn ar drydedd rhan yr adolygiad yn ystod yr haf 2006.

Mae datganiad o anghenion addysgol arbennig yn nodi sut y gellir diwallu anghenion plant er mwyn rhoi mwy o gymorth a chefnogaeth iddynt wneud y gorau o'r system addysg. Mae asesiad statudol yn brawf manwl amlbroffesiynol sy'n canfod yn union beth yw anghenion addysgol arbennig plentyn. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod bod mwyafrif y bobl yr ymgynghorwyd â nhw o blaid cadw rhyw fath o system ddatganiadau. Fodd bynnag, mae'n ymddangos bod anfodlonrwydd cyffredinol â'r ffordd y mae'r broses o roi datganiadau yn gweithio.

Mae'r Pwyllgor yn sylweddoli bod datganiadau yn llawer gwell na'r sefyllfa fel ag yr oedd cyn eu cyflwyno gan Ddeddf Addysg 1981. Maent yn asesiad manwl amlddisgyblaethol o anghenion plentyn ac maent yn sicrhau adnoddau ar gyfer y plentyn dan sylw. Serch hynny, mae'r Pwyllgor yn gwybod bod y broses o roi datganiadau yn gostus ac yn gymhleth ac y gall greu rhwystrau yn aml rhwng rhieni, athrawon a phobl broffesiynol eraill. Rydym yn mawr obeithio y bydd argymhellion yr adroddiad hwn yn arwain at wella'r broses o roi datganiadau, neu'r hyn a ddaw yn ei lle.

Ar ôl ystyried y dystiolaeth, mae'r Pwyllgor yn argymell y dylid mynd ati ar y cyd i brif ffrydio darpariaeth AAA, lle y mae gweithwyr proffesiynol cymwysedig yn mynd i'r afael ag unrhyw ddarpariaeth anghydradd ac yn rheoli'r ddarpariaeth. Mae'r Pwyllgor am weld staff iechyd, addysg a gwasanaethau cymdeithasol yn cydweithio'n agosach ac am weld gwasanaethau AAA yn cael eu comisiynu ar y cyd. Dylid defnyddio'r ddeddfwriaeth sydd eisoes yn ei lle i annog awdurdodau lleol i gydweithio mwy ar sail ranbarthol. Mae'n hanfodol gwrando ar safbwyntiau plant a phobl ifanc ag AAA, a'u rhieni, er mwyn helpu ysgolion ac awdurdodau lleol i roi gwell cymorth a chyngor.

Ar ran y Pwyllgor, carwn ddiolch i'r grŵp cyfeirio allanol, a oedd yn cynnwys cynrychiolwyr o'r sector iechyd, y sector addysg a'r sector gwirfoddol, am ei waith. Carwn ddiolch hefyd i David Melding AC, cyn-Gadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, am ddod i'n holl sesiynau casglu gwybodaeth ac am ei gyfraniad gwerthfawr at ein trafodaethau. Rhown ddiolch hefyd i swyddogion Is-adran Anghenion Ychwanegol a Chynhwysiant Llywodraeth y Cynulliad am eu cymorth.

Ym mis Mehefin 2005, aeth pump o Aelodau'r Pwyllgor a staff y Pwyllgor i Gaeredin i gasglu rhagor o dystiolaeth ar gyfer yr adolygiad polisi. Bu'r Aelodau yn trafod cefndir polisi Deddf Addysg (Cymorth Ychwanegol ar gyfer Dysgu) (Yr Alban) 2004 gydag uwch swyddogion a gwleidyddion Senedd yr Alban. Buont hefyd yn ymweld ag Academi Leith ac Ysgol Uwchradd St Thomas of Aquin's lle y cawsant gyfle i weld y cyfleusterau ac i drafod â'r staff. Bu'r Aelodau hefyd yn trafod theori ac arferion anghenion addysgol arbennig â swyddogion o Adran Addysg Dinas Caeredin ac athro o Brifysgol Stirling.

Rwy'n ddiolchgar am y croeso cynnes a gawsom yn ystod ein hymweliad â'r Alban.

Yn olaf, carwn ddiolch i holl Aelodau'r Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes am eu gwaith caled wrth baratoi'r adroddiad hwn.

Rwy'n cymeradwyo'r adroddiad hwn i Jane Davidson AC, y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes, ac i Brian Gibbons AC, y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

Peter Black AC

Cadeirydd y Pwyllgor Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau

Mai 2006

Aelodaeth

Pwyllgor Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau

Peter Black
Cadeirydd
Democratiaid Rhyddfrydol Cymru

Christine Chapman
Llafur

Jeff Cuthbert
Llafur

Jane Davidson
(Gweinidog yn y Cynulliad)
Llafur

William Graham
Plaid Geidwadol Cymru

Irene James
Llafur

Janet Ryder
Plaid Cymru
The Party of Wales

Owen John Thomas
Plaid Cymru
The Party of Wales

Adran 1 - Cyflwyniad

Cefndir

1.1 Ym mis Gorffennaf 2003, fe wnaethom benderfynu cynnal adolygiad polisi o anghenion addysgol arbennig (AAA) gan ganolbwyntio yn y lle cyntaf ar adnabod ac ymyrryd yn gynnar. Cyhoeddwyd yr adroddiad ar gam 1 yr adolygiad ym mis Tachwedd 2004. Cyhoeddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru ei hymateb i'r adroddiad ar 25 Ionawr 2005[1].

1.2 Mae'r adroddiad hwn yn cwmpasu ail gam yr adolygiad ar y fframwaith asesu statudol (gwneud datganiadau) i blant ag AAA. Yng ngham olaf yr adolygiad, byddwn yn ymchwilio i'r problemau a wynebir gan blant a phobl ifanc ag AAA pan fyddant yn mynd o gam i gam yn y system addysg statudol ac ymlaen i addysg bellach neu addysg uwch.

Cylch Gorchwyl

1.3 Fe wnaethom gytuno ar y cylch gorchwyl isod ar gyfer y rhan hon o'r adolygiad:

- *Edrych ar sut y mae'r awdurdodau addysg lleol yn cyflawni gofynion Cod Ymarfer AAA Cymru, o ran asesiadau a datganiadau;*
- *Edrych ar oblygiadau'r gwahaniaeth rhwng y plant a'r bobl ifainc hynny ag AAA sydd ar ddatganiad, a'r rhai nad ydynt ar ddatganiad;*
- *Edrych ar sut mae'r awdurdodau addysg lleol yn hybu'r ysgolion i adolygu'u polisi a'u harfer, i sicrhau bod unrhyw blant neu bobl ifainc sydd ag AAA yn elwa o addysg gynhwysol;*
- *Edrych ar sut mae'r awdurdodau addysg lleol a'r ysgolion yn sicrhau rhieni y bydd anghenion eu plant yn cael eu diwallu;*
- *Adnabod yr arferion gorau wrth i asiantaethau gwahanol gydweithio i asesu AAA;*
- *Trafod a yw'r fframwaith asesu presennol yn defnyddio sgiliau ac adnoddau - dynol ac ariannol- er y gorau;*
- *Edrych ar y ddarpariaeth o gyngor a chefnogaeth trwy gyfrwng y Gymraeg, gyda golwg ar asesiadau a Datganiadau;*
- *Argymell i Weinidog y Cynulliad ddulliau i wella'r trefniadau presennol ar gyfer asesu AAA.*

Yr Adolygiad

1.4 O fis Ebrill i fis Tachwedd 2005, fe wnaethom gasglu gwybodaeth am y pwnc hwn; gan gynnwys cael cyflwyniadau ffurfiol, cynnal ymgynghoriad ac ymweld yn anffurfiol ag ysgolion. Hefyd fe wnaethom fynd ar ymweliad â'r Alban i ddysgu am eu profiad hwy o gyflwyno trefniadau newydd ar gyfer asesu statudol.

[1] http://www.cymru.gov.uk/organicabinet/content/statements/2005/250105-ellreport-w.doc

Adran 2 - Gwybodaeth Gefndir

Y Cyd-destun Hanesyddol

2.1 Rhoddodd Deddf Addysg 1972 yr hawl i bob plentyn gael addysg a rhoddodd derfyn ar y syniad o blant "nad oes modd eu dysgu". Ym 1974 sefydlwyd "y Pwyllgor Ymchwilio i Addysg Plant a Phobl Ifanc dan Anfantais". Dan gadeiryddiaeth y Farwnes Warnock, rhoddodd gyngor ar sut y gellid gwneud i'r egwyddorion hyn weithio'n ymarferol.

2.2 Roedd ei adroddiad terfynol[2], a gyhoeddwyd ym 1978, yn sail i Ddeddf Addysg 1981 a gyflwynodd Ddatganiadau o Anghenion Addysgol. Yr Awdurdodau Addysg Lleol fyddai'n cyhoeddi Datganiadau ar sail asesiadau arbenigwyr o anghenion plentyn. Byddai'r Datganiad yn amlinellu'r gefnogaeth y byddai ar y plentyn ei hangen. Byddai dyletswydd statudol ar Awdurdodau Lleol i ddarparu'r gefnogaeth hon. Mae deddfwriaeth ddilynol wedi cynnal y fframwaith statudol i raddau helaeth o gylch Datganiadau.

2.3 Clywsom yn uniongyrchol gan y Farwnes Warnock yr amcangyfrifwyd mai dim ond tua 2% o'r 20% o'r plant ag anghenion arbennig fyddai'n cael Datganiad. Mewn gwirionedd, mae'r nifer wedi bod yn llawer uwch na hyn, gan beri bod rhai (gan gynnwys y Farwnes Warnock ei hunan) yn cwestiynu a ddylid eu cadw yn eu ffurf bresennol.

Diffiniad o Anghenion Addysgol Arbennig

Mae gan blant anghenion addysgol arbennig os oes ganddynt anhawster dysgu sy'n galw am ddarpariaeth addysgol arbennig.
Mae gan blant anhawster dysgu:

- Os ydynt yn ei chael yn llawer anos i ddysgu na mwyafrif y plant o'r un oedran â nhw; neu
- Os oes ganddynt anabledd sy'n eu hatal neu'n eu rhwystro rhag defnyddio cyfleusterau addysgol o'r math a ddarperir yn arferol i blant o'r un oedran mewn ysgolion o fewn ardal yr Awdurdod Addysg Lleol; neu
- Os ydynt dan oedran ysgol gorfodol a'u bod o fewn y diffiniad yn (a); neu yn (b) uchod, neu y byddent yn gwneud hynny pe na bai darpariaeth addysgol arbennig ar gael ar eu cyfer.

Mae darpariaeth addysgol arbennig yn golygu:

- Ar gyfer plant dwy oed a throsodd, darpariaeth addysgol sy'n ychwanegol at, neu fel arall yn wahanol i, y ddarpariaeth addysgol arferol i blant o'r un oedran â nhw mewn ysgolion a gynhelir gan yr Awdurdod Addysg Lleol, ar wahân i ysgolion arbennig yn yr ardal; ac
- Ar gyfer plant dan ddwy oed, darpariaeth addysgol o unrhyw fath.

Gweler Adran 312, Deddf Addysg 1996

Ceir rhestr o'r termau a ddefnyddir yn yr adroddiad hwn yn Atodiad E.

[2] Pwyllgor Warnock (1978), Special Educational Needs: the Warnock Report, Llundain: D.E.S.

Y Fframwaith Statudol

2.4 Amlinellir y fframwaith statudol presennol ar gyfer AAA yn Neddf Addysg 1996 a Ddeddf AAA ac Anabledd 2001. Rhoddodd Deddf Addysg 1993 ddyletswydd ar yr Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg i gyhoeddi Cod Ymarfer a sefydlodd y pŵer i'w adolygu o dro i dro. Daeth y Cod Ymarfer cyntaf i rym ym 1994. Ers hynny, mae'r hawliau a'r dyletswyddau a gynhwysir yn Neddf 1993 wedi'u hymgorffori yn Rhan IV Deddf Addysg 1996.

2.5 Mae'r Cod Ymarfer AAA ar gyfer Cymru (2002) yn rhoi cyfarwyddyd ac yn amlinellu gweithdrefnau i alluogi plant a phobl ifanc ag AAA i gyrraedd eu llawn botensial, i gael eu cynnwys yn llwyr yng nghymunedau eu hysgolion ac i bontio'n hwylus o fod yn blant i fod yn oedolion. Mae'n cynnwys dyletswyddau a hawliau newydd a gyflwynwyd gan Ddeddf AAA ac Anabledd 2001 a Rheoliadau perthnasol.

2.6 Mae'r Cod yn disgrifio'r meysydd AAA a ganlyn:

- Anawsterau cyfathrebu a rhyngweithio;
- Anawsterau gwybyddiaeth a dysgu;
- Ymddygiad a datblygiad emosiynol a chymdeithasol;
- Anghenion synhwyraidd, corfforol a meddygol.

2.7 Mae'r Cod yn disgrifio gweithdrefnau ar gyfer asesu anghenion addysgol arbennig plant a phobl ifanc, ac ar gyfer cynllunio ymyriadau priodol i fynd i'r afael â'u hanghenion.

2.8 Egwyddorion sylfaenol y Cod yw:

- Dylid diwallu anghenion pob plentyn ag anghenion addysgol arbennig;
- Dylid diwallu'r anghenion addysgol arbennig hyn fel arfer mewn lleoliadau blynyddoedd cynnar prif ffrwd, neu mewn ysgolion prif ffrwd;
- Bydd safbwyntiau rhieni a'u plant yn cael gwrandawiad ac yn cael eu cymryd i ystyriaeth;
- Mae gan rieni rôl hanfodol o ran cefnogi addysg eu plentyn;
- Dylai plant ag anghenion addysgol arbennig gael addysg eang, cytbwys a pherthnasol.

2.9 Mae'r Cod yn disgrifio sut y caiff plant a phobl ifanc eu cefnogi mewn lleoliadau blynyddoedd cynnar ac ysgolion, a hynny drwy ymateb cam wrth gam neu ymateb graddol. Bydd ysgolion gwahanol yn dehongli'r Cod mewn ffyrdd gwahanol.

Ystadegau AAA yng Nghymru

2.10 Yn ôl Estyn, bydd gan gyfran fawr o blant, efallai un ym mhob pedwar, angen arbennig neu ychwanegol o ryw fath ar ryw adeg yn ystod eu bywyd ysgol.

2.11 Ym mis Ionawr 2005, roedd gan oddeutu 3.3% o'r disgyblion ar gofrestrau ysgol yng Nghymru Ddatganiadau AAA. Mae'r ganran hon wedi parhau'n gyson, gan amrywio o ddim ond 0.1 pwynt canran dros y saith mlynedd ddiwethaf[3]. Roedd tua chwarter yr holl Ddatganiadau newydd yn 2004 ar gyfer plant o dan bump oed.

2.12 Fodd bynnag, dywedwyd bod amrywiad mawr rhwng gwahanol awdurdodau addysg lleol trwy Gymru; o 1.6% i 5.1%[4]. Mae tri chwarter y plant sydd â Datganiad yn cael eu haddysgu mewn ysgolion prif ffrwd.

2.13 Yn y gyllideb, neilltuwyd cyfanswm o £261 miliwn[5] yn 2005-06 i'w wario ar ddarpariaeth AAA yng Nghymru. Mae hyn yn gynnydd o 7 y cant ar gyllideb y flwyddyn flaenorol.

2.14 Dyrannwyd 21 y cant o'r arian yng nghyllideb 2005-06 ar gyfer AAA i ysgolion arbennig. Mae 36 y cant o'r arian yn ddyraniadau tybiedig i ysgolion cynradd ac uwchradd. Arian sy'n cael ei gadw'n ganolog gan yr Awdurdodau Addysg Lleol yw'r 43 y cant sy'n weddill.

[3] Datganiad Ystadegol SDR 52/2005 – Disgyblion sydd â Datganiad o Anghenion Addysgol Arbennig: Ionawr 2005
[4] Papur Estyn ELL(2)-05-03(p1)
[5] Datganiad Ystadegau Gwladol SDR 62/2005(R)

Adran 3 - Materion sy'n Deillio o'r Adolygiad

Ymgynghori a Thystiolaeth

3.1 Anfonwyd holiaduron ymgynghori at bron i 150 o unigolion a sefydliadau yn ogystal ag at sampl o 10% o holl ysgolion Cymru. Hefyd, trefnwyd fforwm trafod ar-lein a gafodd gyhoeddusrwydd drwy ddatganiad i'r wasg a thrwy anfon dros 2,000 o daflenni cyhoeddusrwydd i bob ysgol yng Nghymru.

3.2 Cynhaliwyd yr ymgynghoriad rhwng mis Mehefin 2005 a mis Medi 2005. Cafwyd bron i 100 ymateb i'r holiadur ymgynghori. Ceir rhestr o'r rhai a ymatebodd yn atodiad A. Roedd oddeutu chwarter yr ymatebion gan rieni neu warcheidwaid a'r rhan fwyaf o'r ymatebion eraill gan bobl broffesiynol sy'n gweithio yn y maes. Nododd oddeutu traean yr ymatebwyr eu bod yn dod o'r De-ddwyrain, traean eu bod yn dod o'r Gogledd a thraean eu bod yn dod o'r Canolbarth a'r Gorllewin. Ceir adroddiad am yr ymgynghoriad, gan gynnwys rhestr o'r ymatebwyr, yn Atodiadau A + B.

3.3 Cafodd yr holl faterion a godwyd eu cynnwys, fwy neu lai, mewn papurau a gyflwynwyd inni neu mewn tystiolaeth lafar. Oherwydd eu hyd, nid yw'n fwriad gennym ailadrodd y wybodaeth a geir yn y papurau. Rhestrir y rhain yn Atodiad C, a gellir eu gweld ar wefan y Cynulliad yn www.cymru.gov.uk , ynghyd â thrawsgrifiadau o'r dystiolaeth lafar a glywsom.

3.4 Isod, ceir crynodeb o'r prif faterion sy'n codi o'r dystiolaeth a gasglwyd gennym. Sylwer nad yw hwn yn ddatganiad cynhwysfawr o'r holl bwyntiau a wnaethpwyd yn y dystiolaeth. Yn hytrach, mae'n asesiad o rai o'r prif ffactorau yr ydym wedi'u cymryd i ystyriaeth wrth ddod i'n casgliadau ac wrth wneud ein hargymhellion:

<u>Datganiadau</u>

- Roedd dros 65% o'r ymatebion o blaid cadw rhyw fath o broses asesu statudol a dim ond oddeutu 10% o'r ymatebion a fynegodd safbwyntiau pendant o blaid cael gwared â Datganiadau. Fodd bynnag, roedd llawer o ymatebion yn feirniadol o'r broses ac fe all fod elfen o "gwell y drwg a wyddys na'r drwg na wyddys" mewn rhai ymatebion.

- Y darlun cyffredinol sydd wedi dod i'r amlwg yn ystod yr adolygiad yw un o anfodlonrwydd cyffredinol â Datganiadau a'r modd y mae'r broses yn gweithio, ynghyd â dymuniad i weld rhywbeth yn eu lle neu i'w gwella ryw fodd.

- Nid oedd unrhyw gonsensws pendant ynglŷn â'r ffordd o ddatrys y mater. Fodd bynnag, ymddengys bod cytundeb cyffredinol y dylid cadw rhyw fath o "rwyd ddiogelwch" statudol. Dylai unrhyw newidiadau sicrhau bod y system yn canolbwyntio mwy ar y plentyn, yn fwy hwylus i ddefnyddwyr ac yn annog dulliau gweithredu amlddisgyblaethol.

- Os cyflwynir newidiadau, ni ddylid ond gwneud hynny ar ôl ystyried yn ofalus yr holl effeithiau posibl ac mewn modd sy'n meithrin hyder ac yn sicrhau consensws.

Isod, ceir trawstoriad o'r prif safbwyntiau a fynegwyd o blaid ac yn erbyn gwneud datganiadau:

Safbwyntiau Cadarnhaol am Ddatganiadau

- Beth bynnag fo'u diffygion, maent yn llawer gwell na'r sefyllfa cyn eu cyflwyno gan Ddeddf Addysg 1981.
- Maent yn asesiad amlddisgyblaethol manwl o anghenion plentyn.
- Maent yn sicrhau adnoddau ar gyfer y plentyn dan sylw.
- Maent yn darparu rhwyd ddiogelwch y gellir ei gorfodi'n gyfreithiol, ynghyd â hawliau apelio ystyrlon.
- Mae rhieni'n rhan o'r broses.
- Maent yn darparu ar gyfer Adolygiad Blynyddol.

Safbwyntiau Negyddol am Ddatganiadau

- Caiff amser ac adnoddau proffesiynol eu neilltuo ar gyfer gwneud asesiadau yn hytrach nag ateb gofynion disgyblion.
- Nid yw datganiadau yn hyrwyddo dull gweithredu'r ysgol gyfan.
- Nid oes cysylltiad clir rhwng nifer y Datganiadau ac ansawdd y ddarpariaeth.
- Nid oes cysylltiad clir rhwng yr arian a gaiff ei wario ar AAA a chanran y disgyblion sydd â Datganiadau.
- Mae'r broses ddatganiadau yn gostus (i ddarparwyr ac i rieni) ac yn ffordd wael o ddefnyddio adnoddau prin; mae gwahanol bobl yn aml yn dweud bod Datganiadau yn fiwrocrataidd, yn gymhleth, yn anhyblyg ac yn cymryd llawer o amser pobl.
- Mae'r broses asesu yn aml yn creu rhwystrau rhwng rhieni, athrawon a gweithwyr proffesiynol eraill; mae Datganiadau yn rhoi labeli negyddol ar blant.
- Mae plant rhieni sydd yn gymharol gyfoethog neu lafar yn cael budd anghyfartal sy'n peri bod plant ag anghenion mwy yn cael llai o gefnogaeth nag y dylent.
- Er bod rhieni yn gallu'u gweld fel modd o sicrhau adnoddau i'w plant, nid yw hyn o reidrwydd yn digwydd yn ymarferol.
- Maent yn creu cymhellion ariannu a gwobrau gwrthnysig i ysgolion.
- Caiff asesiadau yn aml eu gwneud y naill ar ôl y llall yn hytrach nag mewn modd gwirioneddol amlasiantaethol a chyfannol sy'n canolbwyntio ar y plentyn.

- Gall anghenion plant sydd "ar y ffin" o ran cael datganiadau gael eu hanwybyddu.

Adnoddau

- Ar hyn o bryd mae oddeutu £260 miliwn yn cael ei ddarparu bob blwyddyn trwy Gymru i gefnogi AAA. Nid oes tystiolaeth amlwg fod lefel yr adnoddau yn gyffredinol yn annigonol. Fodd bynnag, mae'r modd y mae adnoddau'n cael eu defnyddio wedi bod yn thema gyson yn ystod yr adolygiad. Dadleuwyd bod y broses o wneud datganiadau ynddi'i hun yn gwastraffu adnoddau ac y gellid gwneud gwell defnydd ohonynt er mwyn mynd i'r afael ag anghenion gwirioneddol.

- Ceir canfyddiad bod y system yn seiliedig ar "loteri cod post" oherwydd gwahaniaethau o ran polisïau a lefelau ariannu ymhlith Awdurdodau Addysg Lleol ac ysgolion; ond mae Estyn[6] wedi darparu tystiolaeth nad oes unrhyw gysylltiad amlwg rhwng yr arian a gaiff ei wario ar AAA a chanran y disgyblion sydd â Datganiadau.

- Efallai bod ysgolion sy'n ymdrin yn effeithiol ag anghenion arbennig, ond sydd â nifer fechan o Ddatganiadau, yn cael llai o arian nag ysgolion nad ydynt mor effeithiol ond sydd â mwy o ddisgyblion â Datganiadau.

- Ceir pryder nad oes digon o staff arbenigol megis therapyddion ac athrawon arbenigol ar gael; gan fod y gyllideb wedi'i rhannu rhwng Addysg ac Iechyd, mae'n bosib bod hyn yn dwysáu rhai o'r pryderon hynny.

- Ceir pryder fod y ddarpariaeth ar gyfer AAA Cymraeg a chyfrwng Cymraeg yn annigonol mewn rhai ardaloedd, yn arbennig yn yr ardaloedd lle y ceir llai o siaradwyr Cymraeg.

Cynhwysiant

- Er gwaethaf pryderon rhai (yn arbennig y Farwnes Warnock[7]) fod angen ailystyried yr hyn a olygir gan "gynhwysiant", ceir consensws eang iawn, beth bynnag fo'r anawsterau dysgu, y dylai plant gael eu haddysgu ochr yn ochr â'u cyfoedion yn y lleoliad mwyaf prif ffrwd posibl, lle bo modd.

- Serch hynny, sylweddolir hefyd bod modd diwallu anghenion plant ag anghenion difrifol neu gymhleth iawn yn well drwy ddarpariaeth unedau arbennig neu ysgolion arbennig yn hytrach na thrwy ddarpariaeth prif ffrwd.

- Mewn rhai achosion, efallai bod modd darparu'n well ar gyfer anhwylderau sydd oherwydd eu natur yn "eithrio" disgyblion (er enghraifft rhai anhwylderau sbectrwm awtistig) mewn lleoliadau mwy arbenigol y tu allan i ysgolion prif ffrwd.

[6] Arfer Orau wrth Ddatblygu Datganiadau Anghenion Addysgol Arbennig ac Ysgolion yn Cyflwyno'r Camau y Cytunwyd Arnynt. Estyn, 2004.

[7] Llyfryn IMPACT Rhif 11 – Special educational needs: a new look. Mary Warnock. Cyhoeddwyd gan The Philosophy of Education Society of Great Britain. 2005. ISBN 0-902227-12-2

- O ddefnyddio Datganiadau fel modd o gael mynediad at ddarpariaeth benodol mewn lleoliadau arbenigol, gall fod yn ffordd o ddatrys rhai o'r materion uchod ar gyfer y grŵp cymharol fach o blant sydd ag anghenion difrifol neu gymhleth y mae'r broses hon yn briodol ar eu cyfer.

Gwybodaeth a Chefnogaeth i Rieni a Gofalwyr

- Mae diffyg dealltwriaeth cyffredinol ymhlith rhieni o'r rhaglenni Gweithredu gan yr Ysgol a Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy ac, mewn rhai achosion, mae diffyg ymddiriedaeth ynddynt hyd yn oed.

- Roedd angen darparu mwy o wybodaeth a gwell gwybodaeth i rieni am y gefnogaeth sydd ar gael i'w plant.

- Mae llawer o rieni'n cwyno bod datganiadau yn cael eu gyrru gan y broses, eu bod yn fiwrocrataidd, yn gymhleth ac yn cymryd llawer o amser i'w cwblhau.

- Mae rhai rhieni nad ydynt yn teimlo eu bod yn cael cefnogaeth trwy'r broses ddatganiadau neu sy'n teimlo eu bod yn cael eu gorfodi i ddilyn y llwybr datganiadau oherwydd methiant yn yr ymddiriedaeth rhyngddynt a'r ysgolion neu'r Awdurdod Addysg Lleol.

- Mae asesiadau amlddisgyblaethol yn aml yn cael eu cwblhau yn annibynnol ar ei gilydd. Mae hyn yn rhoi rhieni a phlant mewn sefyllfa anodd oherwydd bod yn rhaid iddynt fynychu llawer o apwyntiadau gwahanol gyda gwahanol weithwyr gofal iechyd mewn lleoliadau gwahanol.

- Mae materion iechyd meddwl plant a phobl ifanc yn aml yn cael eu hanwybyddu yn y broses ddatganiadau a gall arwain at anawsterau o ran ymddygiad ac anawsterau emosiynol yn ddiweddarach.

Darpariaeth trwy Gyfrwng y Gymraeg a Darpariaeth Ddwyieithog

- Nid yw rhieni bob amser yn ymwybodol o'r dewisiadau iaith sydd ar gael iddynt; nid yw gwasanaethau bob amser ar gael i rieni yn eu dewis iaith.

- Efallai nad yw'n bosib cynnal asesiadau trwy gyfrwng y Gymraeg, ac nad ydynt ychwaith yn effeithiol, os nad oes profion ar gael yn Gymraeg ac os oes raid i blant y mae Cymraeg yn iaith gyntaf iddynt neu'n iaith addysg iddynt sefyll profion Saesneg. Dylai profion diagnostig Cymraeg fod ar gael i sicrhau bod anghenion plant yn cael eu nodi'n effeithiol ac yn cael eu hasesu'n briodol.

- Ceir prinder ymarferwyr sy'n gallu gweithio trwy gyfrwng y Gymraeg.

Materion eraill

- Codwyd materion sy'n ymwneud â rôl staff yn rhoi meddyginiaethau mewn ysgolion prif ffrwd. Yn arbennig, ceir ansicrwydd ynghylch atebolrwydd cyfreithiol staff nad ydynt wedi cael hyfforddiant i roi meddyginiaethau.
- Mae angen ystyried anghenion plant nad yw Cymraeg na Saesneg yn iaith gyntaf iddynt, neu nad yw eu rhieni yn siarad yr un o'r ddwy iaith, yn ogystal â chefnogaeth i rieni a all fod ag anghenion iechyd neu anghenion addysgol arbennig.
- Ceir tystiolaeth fod plant sy'n derbyn gofal mewn sefyllfa arbennig o fregus o ran sicrhau bod eu hanghenion yn cael eu bodloni.

Adran 4 - Ystyried y Materion

Cyflwyniad

4.1 Fel ag y nodwyd yn glir gennym yn ein hadroddiad cyntaf, mae gan bob plentyn yr hawl i'r cychwyn gorau posibl mewn bywyd. Pan fo gan blentyn anghenion arbennig mae'n hanfodol bod yr anghenion hyn yn cael eu hadnabod yn gywir mor fuan ag sy'n bosibl fel bod ymyriad effeithiol cynnar ar gael i'r plentyn, ynghyd â chymorth a chefnogaeth i'r rhieni.

4.2 Pan gyflwynwyd Datganiadau o Anghenion Addysgol Arbennig am y tro cyntaf, yn sgil Deddf Addysg 1981, yr oedd yn gam pwysig iawn ymlaen o ran cydnabod y dylai'r system addysg geisio meithrin gallu plant yn hytrach na'u heithrio am eu bod yn wynebu sialensiau arwyddocaol penodol. Byddai'n gamgymeriad peidio â llawn werthfawrogi'r cynnydd a gafwyd yn sgil cyflwyno Datganiadau, a hynny o ran y fframwaith cyfreithiol ac o ran agwedd y gymdeithas tuag at addysg anghenion arbennig.

4.3 Am y rhesymau a nodwyd uchod, credwn na ddylid ond newid y fframwaith asesu statudol os yw'n glir nad yw'r fframwaith presennol yn gweithio, a hynny ar ôl ystyried yn ofalus yr holl effeithiau posibl ac mewn modd sy'n ceisio meithrin hyder a sicrhau consensws.

[1] Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru ymgynghori'n eang â rhieni a rhanddeiliaid eraill i adeiladu consensws a hyder cyn bod unrhyw newidiadau sylfaenol yn cael eu gwneud i'r fframwaith asesu statudol.

Pwerau Deddfwriaethol

4.4 Nodwn nad oes gan y Cynulliad ar hyn o bryd y pwerau cyfreithiol i wneud newidiadau sylweddol i'r trefniadau ar gyfer asesiadau statudol, er gwaetha'r ffaith fod addysg, fel arall, yn faes sydd wedi'i ddatganoli'n gyfan gwbl.

4.5 Ni allwn weld unrhyw gyfiawnhad am hyn a chredwn y byddai yn unol â'r setliad datganoli cyfredol, a'r egwyddorion a amlinellwyd ym Mesur Llywodraeth Cymru sy'n mynd drwy Senedd San Steffan ar hyn o bryd, i'r Cynulliad gael pwerau cyfreithiol llawn yn y maes hwn.

[2] Rydym yn argymell yn gryf fod Llywodraeth y Cynulliad yn ceisio'r pwerau angenrheidiol fel bod gan y Cynulliad bwerau cyfreithiol llawn dros drefniadau asesu statudol ar gyfer plant ag anghenion addysgol arbennig neu anghenion addysgol ychwanegol.

Terminoleg

4.6 Credwn fod y term "Anghenion Addysgol Arbennig" wedi magu rhywfaint o arwyddocâd negyddol dros amser ac efallai nad yw'n ddisgrifiad cwbl gywir. Er ein bod yn derbyn bod risg y bydd unrhyw derm newydd hefyd yn magu arwyddocâd negyddol, credwn fod gwerth newid y derminoleg ar yr un pryd ag y gwneir unrhyw newidiadau sylweddol i'r system o wneud datganiadau yng Nghymru. Er nad ydym yn ffafrio un term penodol yn arbennig, mae

"anghenion addysgol ychwanegol" yn derm sydd, yn ein barn ni, yn cyfleu'n well y materion a wynebir gan blant.

[3] Rydym yn argymell na ddylai'r term "anghenion addysgol arbennig" gael ei ddefnyddio bellach ac y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru ystyried defnyddio'r term "anghenion addysgol ychwanegol" yn y dyfodol.

Datganiadau

Grŵp Targed

4.7 Bydd cymaint ag 1 ym mhob 4 plentyn yn cael ei ddynodi fel bod ag anghenion arbennig neu ychwanegol rywbryd yn ystod ei fywyd ysgol. Cawsom dystiolaeth y rhagwelwyd ar adeg cyflwyno Deddf Addysg 1981 mai dim ond hyd at 2% o'r plant ag anghenion arbennig neu ychwanegol fyddai angen Datganiadau. Mewn gwirionedd, mae'r gyfran yn sylweddol uwch na hyn.

4.8 Mae hyn i raddau oherwydd bod ystod o anhwylderau yn cael eu cydnabod heddiw nad oeddynt mor adnabyddus pan gyflwynwyd Datganiadau am y tro cyntaf. Fodd bynnag, mae hefyd yn golygu bod gofyn i Ddatganiadau asesu anghenion grŵp eang iawn o blant gydag anghenion gwahanol iawn i'w gilydd - rhywbeth nas bwriadwyd ac nas cynlluniwyd hwy ar ei gyfer erioed. Mae hyn wedi arwain at gyfres o broblemau a nodir ym mhennod flaenorol yr adroddiad hwn.

4.9 Rydym yn sylweddoli bod Datganiadau yn tawelu meddwl llawer o rieni oherwydd eu bod yn nodi'n glir y ddarpariaeth a'r broses dan sylw. Fodd bynnag, credwn y dylid lleihau yn raddol y rôl y mae Datganiadau yn ei chwarae o ran helpu i ddiwallu anghenion addysgol ychwanegol plant. Credwn y dylid canolbwyntio yn y dyfodol ar gefnogi anghenion pob plentyn fel bod y broses Ddatganiadau, sy'n cymryd llawer o amser, sy'n aml yn achosi gwrthdaro ac sy'n aml yn anghynhyrchiol, yn dod i ben. Os yw Datganiadau yn parhau i fod yn angenrheidiol, dylid eu hanelu yn bennaf at y plant sydd â'r anghenion mwyaf difrifol a chymhleth.

4.10 Ein gobaith yw y bydd llai a llai o rieni'n teimlo'r angen i geisio Datganiadau ar gyfer eu plant wrth i'r trefniadau newydd ar gyfer cefnogi anghenion ychwanegol gael eu cyflwyno'n raddol.

4.11 Ar gyfer plant sydd ag anghenion difrifol neu gymhleth, dylai Datganiadau barhau i roi gwarant o ddarpariaeth mewn uned neu ysgol arbennig. Nid yw hyn yn golygu y bydd holl addysg plentyn o reidrwydd yn cael ei darparu yn y lleoliadau hyn, ac fe all olygu bod athrawon neu weithwyr proffesiynol eraill o ysgolion arbennig yn rhannu eu harbenigedd. Er hynny, rhaid gwarantu y caiff cefnogaeth arbenigol iawn ei darparu os oes i Ddatganiad ddiben gwirioneddol.

[4] Rydym yn argymell y dylai Datganiadau barhau i fod ar gael i'r rhieni hynny sydd am eu defnyddio i'w helpu i egluro'r ddarpariaeth a'r broses, ond dylid eu cyfyngu i'r plant hynny sydd â'r anghenion mwyaf difrifol a chymhleth.

Diffiniad o Anghenion Difrifol a Chymhleth

4.12 Rydym yn sylweddoli nad yw diffinio anghenion difrifol a chymhleth yn hawdd. Nid ydym yn ymwybodol o unrhyw ddiffiniad sy'n cael cefnogaeth fyd-eang nac sy'n gwbl rhydd o broblemau. Tynnwyd y diffiniad yn y blwch isod i'n sylw a chredwn ei fod yn fan cychwyn ar gyfer diffinio anghenion difrifol a chymhleth mewn ffordd sy'n rhwydd ei deall ac sydd mor eglur â phosibl. Opsiwn arall a awgrymwyd sy'n symlach ond efallai'n llai eglur, yw dweud bod anghenion difrifol a chymhleth yn rhai lle y mae dwy neu ragor o asiantaethau yn ymwneud â'r gwaith o ddiwallu anghenion plentyn.

[5] Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth y Cynulliad ymgynghori ar ddiffiniad clir, diamwys a rhwydd ei ddeall o'r anghenion mwyaf difrifol a chymhleth sy'n effeithio ar rhwng 0.5% - 1% o blant.

Diffiniad Posibl* o Anghenion Difrifol a Chymhleth

Mae gan blant a phobl ifanc ag anableddau difrifol llai cyffredin anghenion addysgol arbennig amlwg, penodol neu gymhleth o'r math sydd angen eu hadolygu'n barhaus. Mae angen mwy o gydweithio, cynllunio a chefnogaeth rhyngasiantaethol i ddiwallu eu hanghenion na'r hyn sydd ei angen fel arfer i ddiwallu anghenion plant a phobl ifanc. Hefyd, mae arnynt angen llawer o gefnogaeth addysgol mewn un neu fwy o'r meysydd canlynol:

- yr amgylchedd ffisegol
- y cwricwlwm
- lefel y gefnogaeth a'r oruchwyliaeth gan oedolion
- lefel yr adnoddau arbenigol, gan gynnwys technoleg gwybodaeth a chyfathrebu.

Nifer fechan o achosion a geir ym mhob awdurdod lleol. Mae'n debygol eu bod yn cwmpasu rhwng 0.5% a 1% o'r boblogaeth rhwng 0-19 oed.

Gall yr holl ffactorau uchod gyda'i gilydd olygu nad oes gan awdurdodau lleol ar hyn o bryd ddarpariaeth addysgol ddigonol ac effeithiol ar gyfer y plant a'r bobl ifanc hyn.

*** Pwyllgor Cynghorol Gweithrediaeth yr Alban: Report into the Education of Children with Severe Low Incidence Disabilities: Tudalen 3 (Cyfieithiad)**

Dewisiadau eraill ar wahân i Ddatganiadau

4.13 Pe câi'r argymhelliad uchod i gyfyngu datganiadau i'r rhai gydag anghenion difrifol a chymhleth ei dderbyn, byddai angen trefniadau newydd i ddarparu proses ar gyfer adnabod anghenion yr holl blant eraill ac i sicrhau bod yr anghenion hynny'n cael eu hateb. (Ac yn wir ar gyfer y rhai a allai barhau i fod yn gymwys i gael Datganiad.)

4.14 Awgrymwyd nifer o ddulliau gweithredu posibl wrthym. Yn benodol, roeddem yn ddiolchgar am y cyflwyniad[8] a gawsom gan Aelod o is-grŵp Grŵp Cynghori Cymru ar Anghenion Addysgol Arbennig (WAGSEN) ar asesiadau statudol a gwneud datganiadau. Ynddo, amlinellwyd 6 opsiwn yr oedd y grŵp yn eu hystyried ar gyfer gwella'r trefniadau presennol. Roedd y rhain yn amrywio o welliannau mân i'r system bresennol i opsiynau tipyn mwy radical. Roedd cyfuniad o elfennau'r gwahanol opsiynau hefyd yn cael ei ystyried.

4.15 Rydym yn sylweddoli bod y cyflwyniad a gawsom yn disgrifio gwaith a oedd yn dal i fynd rhagddo gan WAGSEN ac nad oedd y grŵp bryd hynny wedi dod i unrhyw gasgliadau pendant ar y model yr oedd yn ei ffafrio. Nodwn hefyd fod bwriad i ymgynghori'n ehangach cyn gwneud unrhyw argymhelliad pendant. Serch hynny, gwnaeth y modd ystyriol ac adeiladol yr oedd y grŵp yn mynd ati i gyflawni ei waith gryn argraff arnom.

4.16 Rydym eisoes wedi nodi y dylai unrhyw newidiadau yn y maes hwn gael eu gwneud yn dilyn ystyriaeth ofalus o'r holl opsiynau ac y dylai fod yn seiliedig ar gonsensws cyn belled ag sy'n bosibl. Felly, byddai'n amhriodol i ni wneud argymhellion rhagnodol ar yr union drefniadau a allai fod yn gymwys yn y dyfodol pan fo gwaith deheuig yn parhau i gael ei wneud gan arbenigwyr.

4.17 Fodd bynnag, mae'r syniad o gofnod o angen a gaiff ei asesu'n barhaus fel sail i drefniadau asesu yn y dyfodol yn apelio atom. Ymhlith y modelau posibl y mae adeiladu ar y Cynlluniau Addysg Unigol neu gyflwyno rhywbeth tebyg i'r cynlluniau cydgysylltiedig a esboniwyd inni pan fu inni ymweld â'r Alban. Mae'r trefniadau, lle y byddai anghenion addysgol ychwanegol yn swyddogaeth gwella ysgol gyfan, hefyd yn apelio atom.

4.18 Nodwn mai un o'r opsiynau a ddisgrifir yng nghyflwyniad WAGSEN yw'r 'Pasbort' sy'n canolbwyntio ar y plentyn ac sy'n cael ei asesu'n barhaus. Mae hwn yn cyd-fynd â'r athroniaeth yr ydym ni'n ei ffafrio.

4.19 Credwn nad yw Datganiadau, yn eu ffurf bresennol, yn gweithio fel y gobeithiwyd, er gwaetha'r cynnydd amlwg a gafwyd ar ôl eu cyflwyno.

[8] ELL(2)-13-05: Eitem 6 http://www.cymru.gov.uk

[6] Er bod angen cadw Datganiadau fel rhwyd ddiogelwch (gan gynnwys hawl apelio y gellir ei gorfodi'n gyfreithiol) ac fel gwarant o ddarpariaeth arbennig i blant ag anghenion difrifol a chymhleth, rydym yn argymell y dylid diddymu Datganiadau yn raddol ar gyfer mwyafrif y plant, a rhoi trefniadau eraill yn eu lle.

[7] Rydym yn argymell bod Llywodraeth y Cynulliad yn ystyried trefniadau asesu statudol newydd yn seiliedig ar gofnod o angen sy'n cael ei asesu'n barhaus. Dylai hwn gael ei gysylltu'n agos gyda threfniadau sy'n annog dull gwella ysgol gyfan o ddiwallu anghenion addysgol ychwanegol.

[8] Rydym yn argymell bod y Gweinidog yn rhoi ystyriaeth ddwys iawn i brif elfennau'r dull "pasbort" o asesu AAA fel ag yr amlinellir yn y cyflwyniad gan WAGSEN.

Cysondeb

4.20 Mae nifer o'r rhai a roddodd dystiolaeth wedi nodi bod anghysondeb yn aml rhwng awdurdodau lleol yn y modd y maent yn trin datganiadau dan y trefniadau presennol. Mae hyn yn dod i'r amlwg yn y ffigurau[9] sy'n dangos amrywiad sylweddol yn nifer y Datganiadau a roddwyd gan awdurdodau lleol yng Nghymru.

4.21 Efallai bod rhesymau dilys dros rai o'r amrywiadau lleol hyn ond mae'n cyfrannu'n fawr tuag at ganfyddiad y "loteri cod post". Ni welwn unrhyw reswm pam fod yn rhaid aros am newidiadau sylweddol i'r trefniadau presennol cyn sicrhau mwy o gysondeb.

[9] Rydym yn argymell bod y Gweinidog yn ystyried cyhoeddi canllawiau diwygiedig i awdurdodau lleol er mwyn sicrhau bod y trefniadau presennol ar gyfer gwneud datganiadau yn cael eu defnyddio'n fwy cyson trwy Gymru.

Gwybodaeth a Chefnogaeth i Rieni a Gwarcheidwaid

4.22 Rhieni a gwarcheidwaid fel arfer yw'r prif ysgogyddion sy'n pwyso am Ddatganiadau i'w plant. Mae llawer o rieni'n teimlo bod yn rhaid iddynt bwyso am Ddatganiadau gan nad ydynt yn teimlo bod eu plant yn cael cefnogaeth ddigonol. Gall hyn fod yn aml oherwydd bod ymddiriedaeth wedi dirywio rhwng y rheini a'r ysgol neu'r awdurdod. O symud ffocws Datganiadau at y plant hynny sydd ag anghenion difrifol a chymhleth, ynghyd â symud tuag at asesiadau parhaus (y pasbort) a chyflwyno methodoleg gwella ysgol gyfan, credwn y byddai'n helpu i waredu'r diffyg ymddiriedaeth hwn.

[9]Arfer Orau wrth Ddatblygu Datganiadau Anghenion Addysgol Arbennig ac Ysgolion yn Cyflwyno'r Camau y Cytunwyd Arnynt. Estyn, 2004.

4.23 Fodd bynnag, nid ydym yn credu y dylid oedi cyn gwella'r system bresennol tra bod newidiadau ehangach yn cael eu hystyried. Gwnaethom nifer o argymhellion yn ein hadroddiad cyntaf i geisio gwella'r gefnogaeth a'r wybodaeth sydd ar gael i rieni. Tynnwn sylw yn benodol at ein hargymhelliad ar **gyngor annibynnol ac eiriolaeth i rieni** (argymhelliad 4.13). Mae'r argymhellion sy'n dilyn yn ategu'r argymhellion hynny ond, yn benodol, bwriedir iddynt gefnogi rhieni, gwarcheidwaid a phlant yn ystod y broses wneud datganiadau a rhoi gwybodaeth iddynt am ddewisiadau eraill posibl.

Gwella'r Profiad Datganiadau

4.24 Clywsom fod asesiadau amlddisgyblaethol yn aml yn gyfres o apwyntiadau unigol gyda gwahanol weithwyr proffesiynol mewn gwahanol leoedd. O gydgysylltu gwaith yr asiantaethau yn well, byddai'r broses yn llawer llai o faich ac yn llai trawmatig i blant a rhieni. Ymhlith y dulliau gweithredu sydd wedi'u hawgrymu y mae'r rhai a amlinellwyd yn argymhellion 10 ac 11 isod.

4.25 Clywsom hefyd y gall y defnydd o weithwyr allweddol fod yn werthfawr iawn i annog dull gweithredu amlddisgyblaethol ac i gefnogi rhieni a phlant yn ystod a thrwy'r broses wneud datganiadau.

[10] Rydym yn argymell bod Llywodraeth y Cynulliad, ynghyd â'r awdurdodau lleol, yn ystyried sut y gellir hwyluso'r prosesau isod ar gyfer mwy o bobl:

- **Cynnal asesiadau mewn un lleoliad, megis canolfan blant neu gyfleuster cefnogaeth amlddisgyblaethol arall;**
- **Cynnal cyfarfodydd amlasiantaethol, megis adolygiadau blynyddol, cyn ac yn ystod asesiadau ffurfiol;**
- **Gwneud mwy o ddefnydd o'r gwasanaeth datrys anghytundebau.**

[11] Rydym yn argymell bod Awdurdodau Addysg Lleol yn penodi gweithwyr allweddol fel modd o gynorthwyo rhieni a sicrhau dull gweithredu mwy amlddisgyblaethol.

Gwybodaeth am Ddewisiadau Eraill ar wahân i Ddatganiadau

4.26 Efallai nad yw llawer o rieni yn ymwybodol o'r dewisiadau eraill sydd ar gael, megis "Gweithredu gan yr Ysgol", "Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy" a "nodiadau yn lle Datganiadau". Mae angen sicrhau bod mwy o wybodaeth ar gael i rieni am y dewisiadau hyn a dewisiadau eraill, ynghyd â gwybodaeth am y gefnogaeth y gellir ei darparu i blant heb fod yn rhaid iddynt gael Datganiadau ffurfiol o'u hanghenion.

[12] Rydym yn argymell bod Awdurdodau Addysg Lleol yn benodol yn gwneud mwy i egluro dulliau eraill o gefnogi plant ag anghenion ychwanegol, ac yn rhoi mwy o gyhoeddusrwydd iddynt.

Cynnwys Plant yn y Broses

4.27 Gallai gweithwyr allweddol hefyd chwarae rôl werthfawr o ran cefnogi plant yn ystod y broses wneud datganiadau. Er ei bod yn bwysig bod rhieni a gwarcheidwaid yn cael y cymorth a'r wybodaeth briodol yn ystod y broses wneud datganiadau, mae'n bwysig hefyd fod plant yn cael eu cynnwys mewn trafodaethau am eu hanghenion a bod y broses ddatganiadau yn cael ei hesbonio wrthynt. Mae'n bwysig hefyd bod materion iechyd meddwl plant a phobl ifanc yn cael sylw priodol yn ystod y broses o wneud datganiadau.

[13] Rydym yn argymell bod Llywodraeth y Cynulliad ac awdurdodau lleol, mewn ymgynghoriad â'r Comisiynydd Plant, yn ystyried y ffordd orau o gefnogi plant yn ystod y broses wneud datganiadau.

Adnoddau

Cyllid Cyffredinol

4.28 Mae adnoddau sylweddol ar gael ar gyfer anghenion addysgol arbennig yng Nghymru. Mae'r ffigurau diweddaraf yn nodi bod £261 miliwn wedi'i neilltuo ar gyfer AAA yng nghyllidebau 2005-06. Credwn fod cyfiawnhad dros lefel yr adnoddau er mwyn helpu plant i feithrin sgiliau, beth bynnag fo'r anawsterau y maent yn eu hwynebu, ac er mwyn rhoi cyfle iddynt ddatblygu er mwyn iddynt wneud y mwyaf o'u bywyd. Er y credwn y byddai croeso i fwy o arian yn y maes hwn, nid ydym wedi clywed unrhyw dystiolaeth gref fod problem arwyddocaol o ran adnoddau yn gyffredinol.

Materion Penodol

4.29 Rydym wedi clywed bod y broses ddatganiadau ei hunan yn gwastraffu adnoddau y gellid eu defnyddio'n well i roi sylw i wir anghenion. Rydym hefyd wedi clywed am drafferthion o ran darparu gwasanaethau arbenigol, yn enwedig pan fo'n rhaid eu comisiynu ar draws ffiniau a chyllidebau awdurdodau lleol a'r Gwasanaeth Iechyd. Rydym wedi clywed o sawl ffynhonnell am y canfyddiad parhaus o "loteri cod post" a cheir pryderon nad yw'r ddarpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg yn ddigonol, yn arbennig yn yr ardaloedd lle y ceir llai o siaradwyr Cymraeg.

4.30 I raddau helaeth, cafodd y materion hyn eu codi a'u trin yn ein hadroddiad ar gam 1 yr adolygiad hwn. Credwn fod yr argymhellion a wnaethpwyd gennym bryd hynny yn dal yn ddilys. Yn benodol, tynnwn eich sylw at ein hargymhellion y dylai Llywodraeth y Cynulliad annog mwy **o ddarpariaeth gwasanaethau AAA ar sail ranbarthol** (argymhelliad 4.5), y dylid **adolygu'r fformiwla ar gyfer dyrannu arian AAA** (argymhelliad 4.15) ac y dylai Llywodraeth y Cynulliad **annog prosiectau pellach ar y cyd rhwng Byrddau Iechyd Lleol ac awdurdodau lleol** gan ddefnyddio'r Grant Arbennig Hyblygrwydd (argymhelliad 4.17).

4.31 Fodd bynnag, yn ychwanegol at yr argymhellion hyn, credwn fod angen am ryw fath o arian cymell i helpu i gychwyn y broses o wella darpariaethau arbenigol a rhanbarthol, gan gynnwys darpariaeth Gymraeg a thrwy gyfrwng y Gymraeg. Byddai hyn yn unol â gwaith Llywodraeth y Cynulliad dan yr agenda "Creu'r Cysylltiadau".

[14] Rydym yn argymell bod Llywodraeth y Cynulliad yn neilltuo swm o arian yn ganolog i dalu am fentrau ysgogi sy'n ceisio gwella darpariaethau rhanbarthol ac arbenigol, gan gynnwys darpariaeth Gymraeg a thrwy gyfrwng y Gymraeg.

Clystyrau Ysgolion

4.32 Ymhlith yr opsiynau y mae WAGSEN yn ymchwilio iddynt, ac sy'n gysylltiedig â'r syniad o "basbort" ar gyfer asesu anghenion addysgol ychwanegol, y mae'r defnydd o glystyrau ysgolion fel canolbwynt ar gyfer ariannu AAA. Credwn fod llawer i'w ddweud dros y syniad hwn, yn ogystal â'r dull gwella ysgol gyfan o fynd i'r afael ag AAA yr ydym ni'n ei ffafrio.

[15] Rydym yn argymell bod Llywodraeth y Cynulliad yn ystyried darparu arian AAA i glystyrau ysgolion a llunio system sy'n annog arian i gael ei rannu ymhlith ysgolion mewn clystyrau.

Cynhwysiant

Egwyddorion

4.33 Cafodd prif egwyddorion addysg gynhwysol eu hamlinellu'n glir yn ein hadroddiad cyntaf. Mae'n werth eu hailadrodd:

- Proses yw addysg gynhwysol lle y mae ysgolion, Awdurdodau Addysg Lleol ac eraill yn datblygu eu diwylliannau, eu polisïau a'u harferion i gynnwys plant a phobl ifanc;
- Gyda hyfforddiant, strategaethau a chefnogaeth briodol, gall bron bob plentyn a pherson ifanc gydag AAA gael ei gynnwys y llwyddiannau mewn addysg prif ffrwd;
- Mae gwasanaeth addysg cynhwysol yn cynnig rhagoriaeth a dewis ac yn ymgorffori safbwyntiau rhieni, gofalwyr a phlant a phobl ifanc;
- Rhaid diogelu buddiannau pob plentyn a pherson ifanc;
- Dylai ysgolion, awdurdodau addysg lleol ac eraill gymryd camau i gael gwared ar y ffactorau sy'n rhwystro plant a phobl ifanc rhag dysgu a chyfranogi;
- Dylai pob plentyn a pherson ifanc allu derbyn addysg briodol sy'n rhoi'r cyfle iddynt gyflawni eu potensial personol;
- Ni fydd addysg prif ffrwd yn addas ar gyfer pob plentyn neu berson ifanc bob amser. Hyd yn oed os nad yw addysg prif ffrwd yn addas am gyfnod arbennig, fodd bynnag, nid yw hynny'n golygu na all y plentyn neu'r person ifanc gael ei gynnwys yn llwyddiannus yn ddiweddarach, os yw hynny'n cwrdd â'i anghenion unigol.

4.34 Rydym yn parhau i gefnogi'n frwd yr egwyddorion hyn. Credwn fod iddynt gefnogaeth helaeth ymhlith rhieni ac addysgwyr fel ei gilydd. Cytunwn nad yw plant yn cael eu cynnwys yn briodol pan leolir hwy mewn lleoliadau prif ffrwd amhriodol lle nad oes cymorth addas ar gael ar eu cyfer. Roedd hwn yn bwynt craidd a wnaethpwyd gan y Farwnes Warnock. Fodd bynnag, ni chredwn fod hyn yn rheswm dros ddychwelyd at drefniadau lle y mae darpariaethau arbennig a darpariaethau prif ffrwd yn gyfan gwbl ar wahân.

Rôl Ysgolion ac Unedau Arbennig

4.35 Er ein bod yn cefnogi'n llwyr addysg gynhwysol, rydym yn sylweddoli, fel ag yr amlinellwyd uchod, fod angen parhaus am ddarpariaeth arbenigol mewn unedau ac ysgolion arbennig. O ddefnyddio mwy o glystyrau ysgolion, credwn y byddai'n ffordd well o drefnu darpariaethau unedau arbennig o fewn lleoliadau prif ffrwd er mwyn darparu ar gyfer ystod o blant gydag anawsterau cymedrol i ddifrifol.

4.36 Credwn y dylai'r unedau hyn gael eu hystyried yn ganolfannau rhagoriaeth ar gyfer addysgu AAA, ac y dylid eu hannog i ddatblygu'n ganolfannau o'r fath. Byddai eu staff yn rhannu eu gwybodaeth a'u harbenigedd o fewn clystyrau ysgolion ac yn ehangach ymhlith athrawon mewn lleoliadau prif ffrwd.

[16] Rydym yn argymell bod Llywodraeth y Cynulliad yn ystyried sut y gall clystyrau ysgolion chwarae mwy o rôl i gefnogi darpariaeth unedau arbennig yn y brif ffrwd.

[17] Rydym yn argymell y dylai unedau arbennig o fewn clystyrau gael eu datblygu fel canolfannau rhagoriaeth ar gyfer addysgu AAA.

[18] Rydym yn argymell bod Llywodraeth y Cynulliad yn ystyried dulliau o annog athrawon mewn amgylchiadau dysgu prif ffrwd ac amgylchiadau dysgu arbennig i gyfnewid arbenigedd a gwybodaeth.

Darpariaeth Trwy Gyfrwng y Gymraeg a Darpariaeth Ddwyieithog

4.37 Er bod twf sylweddol wedi bod mewn addysg cyfrwng Cymraeg ac addysg ddwyieithog, nodwyd yn ein hadroddiad cyntaf nad oedd llawer o dystiolaeth o dwf tebyg mewn gwasanaethau i blant ag AAA. Ar y pryd, fe wnaethom gymeradwyo adroddiad cynhwysfawr Bwrdd yr Iaith Gymraeg "Cydnabod Angen" fel un a oedd yn darparu set gyflawn a chydlynol o argymhellion ar gyfer gwella darpariaeth ac arferion.

4.38 Mae'r dystiolaeth a glywsom yn y rhan hon o'r adolygiad yn awgrymu bod materion penodol sy'n ymwneud â'r broses wneud datganiadau nad ydynt wedi gwella ers i Fwrdd yr Iaith Gymraeg gyhoeddi ei adroddiad. Yn benodol, clywsom fod prinder staff sy'n gallu gwneud asesiadau statudol yn Gymraeg a diffyg profion diagnostig trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r prinder staff yn ymddangos yn broblem arbennig yn yr ardaloedd lle y ceir llai o siaradwyr Cymraeg.

4.39 Fe all yr argymhellion a wnawn yn gynharach yn yr adroddiad hwn, i annog darpariaeth ranbarthol a chlystyru ysgolion, helpu o ran darparu

gweithwyr sy'n gallu gwneud asesiadau statudol yn Gymraeg. Fodd bynnag, credwn fod angen gwneud mwy i sicrhau nad yw diffyg adnoddau yn atal plant rhag cael eu hasesu yn eu dewis iaith.

4.40 Mae'r argymhellion uchod yn seiliedig ar ein cred ni y dylai pob prawf a gynhelir fel rhan o'r broses wneud datganiadau fod ar gael yn newis iaith y plentyn.

[19] Rydym yn argymell bod Awdurdodau Addysg Lleol yn addasu eu polisïau recriwtio a'u rhaglenni hyfforddi staff i sicrhau bod digon o staff cymwysedig ar gael i wneud asesiadau trwy gyfrwng y Gymraeg ac yn ddwyieithog.

[20] Rydym yn argymell bod Llywodraeth y Cynulliad yn cynnal archwiliad yn ystod y 12 mis nesaf o'r arbenigedd iaith Gymraeg a chyfrwng Cymraeg i weld lle y mae'r bylchau ac i lywio'r ddarpariaeth yn y dyfodol.

[21] Rydym yn argymell bod Llywodraeth y Cynulliad yn adolygu'r ddarpariaeth ar gyfer addysg anghenion ychwanegol mewn cyrsiau hyfforddi cychwynnol athrawon ar gyfer athrawon Cymraeg a chyfrwng Cymraeg.

[22] Rydym yn argymell bod Llywodraeth y Cynulliad yn ystyried darparu arian i sicrhau bod ystod gyflawn o brofion diagnostig cyfrwng Cymraeg ar gael i'w defnyddio yn y broses wneud datganiadau.

[23] Credwn y dylai'r profion sy'n rhan o'r broses wneud datganiadau fod ar gael yn newis iaith y plentyn, a hynny fel hawl sylfaenol yng Nghymru. Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth y Cynulliad fabwysiadu'r egwyddor sylfaenol hon.

Materion Eraill

Rhoi Meddyginiaethau

4.41 Er bod y mater ychydig y tu allan i gylch gorchwyl y rhan hon o'r adolygiad, holwyd am rôl staff ysgol o ran rhoi meddyginiaethau i ddisgyblion. Gall hyn esgor ar broblemau a chwestiynau ynglŷn ag atebolrwydd cyfreithiol, hyfforddiant ac adnoddau. Mae hefyd yn faes mwy cymhleth nag y mae'n ymddangos ar yr olwg gyntaf o gofio'r angen ar adegau i nifer sylweddol o staff gael eu hyfforddi i ymdrin ag argyfyngau a allai effeithio ar ddim ond nifer fach o ddisgyblion (neu ar un disgybl hyd yn oed).

[24] Rydym yn argymell bod Llywodraeth y Cynulliad, ynghyd â Chyngor Addysgu Cyffredinol Cymru ac undebau'r athrawon, yn ystyried a yw'r canllawiau a'r gefnogaeth a roddir i athrawon a disgyblion o ran rhoi meddyginiaethau yn briodol.

Anghenion Iaith

4.42 Yn ein hadroddiad cyntaf, nodwyd bod angen gofal arbennig o ran adnabod AAA yn gynnar mewn plant nad yw Cymraeg na Saesneg yn iaith gyntaf iddynt. Mae hyn yr un mor wir am y broses asesu statudol lle y gall cefndir ieithyddol y rhieni eu hunain hefyd fod yn rhwystr ychwanegol rhag eu cynnwys yn llwyr yn y broses wneud datganiadau. O ran egwyddor, teimlwn y dylai pob prawf sy'n rhan o'r broses wneud datganiadau fod ar gael yn newis iaith y plentyn. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod y gall fod cyfyngiadau ymarferol a chyfyngiadau o ran adnoddau sy'n ei gwneud yn anodd bodloni'r egwyddor hon ym mhob achos.

[25] Rydym yn argymell bod Llywodraeth y Cynulliad yn ystyried canllawiau ar y ffordd orau o gefnogi plant a rhieni nad yw Cymraeg na Saesneg yn iaith gyntaf iddynt yn ystod y broses wneud datganiadau.

Anghenion Arbennig Rhieni

4.43 Gall fod gan rieni anghenion iechyd neu anghenion addysgol sy'n ei gwneud yn anodd iddynt gymryd rhan yn y broses asesu fel y byddent yn dymuno.

[26] Rydym yn argymell bod Llywodraeth y Cynulliad yn ystyried arferion gorau o ran cefnogi rhieni sydd ag anghenion addysgol neu anghenion iechyd arbennig yn ystod y broses wneud datganiadau.

Plant sy'n Derbyn Gofal

4.44 Clywsom gan Swyddfa'r Comisiynydd Plant fod plant sy'n derbyn gofal yn ei chael yn arbennig o anodd i gael mynediad at drefniadau asesu statudol fel y gellir diwallu eu hanghenion addysgol. Mae hon yn broblem ehangach na'r system datganiadau ac anghenion addysgol arbennig. Fodd bynnag, mae'n bwysig iawn nodi bod plant sy'n derbyn gofal yn fwy agored i niwed os oes ganddynt anghenion addysgol arbennig hefyd.

[27] Rydym yn argymell bod Llywodraeth y Cynulliad, ar y cyd â'r Comisiynydd Plant, yn ystyried arferion gorau o ran cefnogi plant sy'n derbyn gofal sydd ag anghenion addysgol arbennig, gan gynnwys sut y maent yn cael mynediad i'r trefniadau asesu statudol.

Monitro

4.45 Mae rhai o'n hargymhellion yn ei gwneud yn amlwg ein bod yn sylweddoli'r angen am ofal er mwyn sicrhau consensws a thawelu meddwl rhieni. Ni ddylid casglu o hyn ein bod yn ffafrio gwneud dim a llusgo traed. Er bod angen bwrw ymlaen yn ofalus, mae'r trefniadau presennol yn ddiffygiol iawn i lawer o blant ac yn dwysáu'r sialensiau y maent hwy, eu rhieni a'u gwarcheidwaid yn eu hwynebu. Felly, mae'n bwysig mynd ati ar fyrder i wella'r trefniadau.

[28] Rydym yn argymell y dylai'r Gweinidog dros Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau roi ymateb cychwynnol i'r adroddiad hwn cyn pen chwe wythnos yn unol â'r protocol y cytunwyd arno, ac y dylai adrodd i'r Pwyllgor ar hynt y broses o roi'r trefniadau gwell ar waith, gan gynnwys adroddiad arall ar yr argymhellion yn Rhan 1 yr adolygiad hwn, cyn pen 12 mis.

Adran 5 - Casgliad a Chrynodeb o'r Argymhellion

Casgliad

Cafwyd tystiolaeth glir yn ystod yr adolygiad fod angen rhyw fath o broses asesu statudol. Ychydig iawn o'r rhai a ymatebodd i'r ymgynghoriad oedd o blaid cael gwared ar ddatganiadau. Fodd bynnag, cafwyd cefnogaeth gref i'r syniad o symud ffocws y broses er mwyn sicrhau bod ymdrechion ac adnoddau yn cael eu buddsoddi i ddiwallu anghenion y plentyn, yn hytrach nag yn y broses lafurus o baratoi datganiadau. Dylid targedu datganiadau at y plant hynny sydd ag anghenion difrifol a chymhleth, ond ni ddylid newid y system heb ymgynghori'n eang â rhieni a rhanddeiliaid eraill.

Mae'r diffyg cysondeb ar draws Awdurdodau Addysg Lleol, materion sy'n ymwneud â'r ddarpariaeth Gymraeg, ynghyd â materion sy'n ymwneud â darpariaeth i rieni a phlant nad yw Cymraeg na Saesneg yn iaith gyntaf iddynt, yn peri pryder ac mae angen i Lywodraeth y Cynulliad fynd i'r afael â'r materion hyn.

Crynodeb o'r Argymhellion

[1] Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru ymgynghori'n eang â rhieni a rhanddeiliaid eraill i adeiladu consensws a hyder cyn bod unrhyw newidiadau sylfaenol yn cael eu gwneud i'r fframwaith asesu statudol.

[2] Rydym yn argymell yn gryf fod Llywodraeth y Cynulliad yn ceisio'r pwerau angenrheidiol fel bod gan y Cynulliad bwerau cyfreithiol llawn dros drefniadau asesu statudol ar gyfer plant ag anghenion addysgol arbennig neu anghenion addysgol ychwanegol.

[3] Rydym yn argymell na ddylai'r term "anghenion addysgol arbennig" gael ei ddefnyddio bellach ac y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru ystyried defnyddio'r term "anghenion addysgol ychwanegol" yn y dyfodol.

[4] Rydym yn argymell y dylai Datganiadau barhau i fod ar gael i'r rhieni hynny sydd am eu defnyddio i'w helpu i egluro'r ddarpariaeth a'r broses, ond dylid eu cyfyngu i'r plant hynny sydd â'r anghenion mwyaf difrifol a chymhleth.

[5] Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth y Cynulliad ymgynghori ar ddiffiniad clir, diamwys a rhwydd ei ddeall o'r anghenion mwyaf difrifol a chymhleth sy'n effeithio ar rhwng 0.5% - 1% o blant.

[6] Er bod angen cadw Datganiadau fel rhwyd ddiogelwch (gan gynnwys hawl apelio y gellir ei gorfodi'n gyfreithiol) ac fel gwarant o ddarpariaeth arbennig i blant ag anghenion difrifol a chymhleth, rydym yn argymell y dylid diddymu Datganiadau yn raddol ar gyfer mwyafrif y plant, a rhoi trefniadau eraill yn eu lle.

[7] Rydym yn argymell bod Llywodraeth y Cynulliad yn ystyried trefniadau asesu statudol newydd yn seiliedig ar gofnod o angen sy'n cael ei asesu'n barhaus. Dylai hwn gael ei gysylltu'n agos gyda threfniadau sy'n annog dull gwella ysgol gyfan o ddiwallu anghenion addysgol ychwanegol.

[8] Rydym yn argymell bod y Gweinidog yn rhoi ystyriaeth ddwys iawn i brif elfennau'r dull "pasbort" o asesu AAA fel ag yr amlinellir yn y cyflwyniad gan WAGSEN.

[9] Rydym yn argymell bod y Gweinidog yn ystyried cyhoeddi canllawiau diwygiedig i awdurdodau lleol er mwyn sicrhau bod y trefniadau presennol ar gyfer gwneud datganiadau yn cael eu defnyddio'n fwy cyson trwy Gymru.

[10] Rydym yn argymell bod Llywodraeth y Cynulliad, ynghyd â'r awdurdodau lleol, yn ystyried sut y gellir hwyluso'r prosesau isod ar gyfer mwy o bobl:

- **Cynnal asesiadau mewn un lleoliad, megis canolfan blant neu gyfleuster cefnogaeth amlddisgyblaethol arall;**
- **Cynnal cyfarfodydd amlasiantaethol, megis adolygiadau blynyddol, cyn ac yn ystod asesiadau ffurfiol;**
- **Gwneud mwy o ddefnydd o'r gwasanaeth datrys anghytundebau.**

[11] Rydym yn argymell bod Awdurdodau Addysg Lleol yn penodi gweithwyr allweddol fel modd o gynorthwyo rhieni a sicrhau dull gweithredu mwy amlddisgyblaethol.

[12] Rydym yn argymell bod Awdurdodau Addysg Lleol yn benodol yn gwneud mwy i egluro dulliau eraill o gefnogi plant ag anghenion ychwanegol, ac yn rhoi mwy o gyhoeddusrwydd iddynt.

[13] Rydym yn argymell bod Llywodraeth y Cynulliad ac awdurdodau lleol, mewn ymgynghoriad â'r Comisiynydd Plant, yn ystyried y ffordd orau o gefnogi plant yn ystod y broses wneud datganiadau.

[14] Rydym yn argymell bod Llywodraeth y Cynulliad yn neilltuo swm o arian yn ganolog i dalu am fentrau ysgogi sy'n ceisio gwella darpariaethau rhanbarthol ac arbenigol, gan gynnwys darpariaeth Gymraeg a thrwy gyfrwng y Gymraeg.

[15] Rydym yn argymell bod Llywodraeth y Cynulliad yn ystyried darparu arian AAA i glystyrau ysgolion a llunio system sy'n annog arian i gael ei rannu ymhlith ysgolion mewn clystyrau.

[16] Rydym yn argymell bod Llywodraeth y Cynulliad yn ystyried sut y gall clystyrau ysgolion chwarae mwy o rôl i gefnogi darpariaeth unedau arbennig yn y brif ffrwd.

[17] Rydym yn argymell y dylai unedau arbennig o fewn clystyrau gael eu datblygu fel canolfannau rhagoriaeth ar gyfer addysgu AAA.

[18] Rydym yn argymell bod Llywodraeth y Cynulliad yn ystyried dulliau o annog athrawon mewn amgylchiadau dysgu prif ffrwd ac amgylchiadau dysgu arbennig i gyfnewid arbenigedd a gwybodaeth.

[19] Rydym yn argymell bod Awdurdodau Addysg Lleol yn addasu eu polisïau recriwtio a'u rhaglenni hyfforddi staff i sicrhau bod digon o staff cymwysedig ar gael i wneud asesiadau trwy gyfrwng y Gymraeg ac yn ddwyieithog.

[20] Rydym yn argymell bod Llywodraeth y Cynulliad yn cynnal archwiliad yn ystod y 12 mis nesaf o'r arbenigedd iaith Gymraeg a chyfrwng Cymraeg i weld lle y mae'r bylchau ac i lywio'r ddarpariaeth yn y dyfodol.

[21] Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth y Cynulliad adolygu'r ddarpariaeth ar gyfer addysg anghenion ychwanegol mewn cyrsiau hyfforddi cychwynnol athrawon ar gyfer athrawon Cymraeg neu gyfrwng Cymraeg.

[22] Rydym yn argymell bod Llywodraeth y Cynulliad yn ystyried darparu arian i sicrhau bod ystod gyflawn o brofion diagnostig cyfrwng Cymraeg ar gael i'w defnyddio yn y broses wneud datganiadau.

[23] Credwn y dylai'r profion sy'n rhan o'r broses wneud datganiadau fod ar gael yn newis iaith y plentyn, a hynny fel hawl sylfaenol yng Nghymru. Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth y Cynulliad fabwysiadu'r egwyddor sylfaenol hon.

[24] Rydym yn argymell bod Llywodraeth y Cynulliad, ynghyd â Chyngor Addysgu Cyffredinol Cymru ac undebau'r athrawon, yn ystyried a yw'r canllawiau a'r gefnogaeth a roddir i athrawon a disgyblion o ran rhoi meddyginiaethau yn briodol.

[25] Rydym yn argymell bod Llywodraeth y Cynulliad yn ystyried canllawiau ar y ffordd orau o gefnogi plant a rhieni nad yw Cymraeg na Saesneg yn iaith gyntaf iddynt yn ystod y broses wneud datganiadau.

[26] Rydym yn argymell bod Llywodraeth y Cynulliad yn ystyried arferion gorau o ran cefnogi rhieni sydd ag anghenion addysgol neu anghenion iechyd arbennig yn ystod y broses wneud datganiadau.

[27] Rydym yn argymell bod Llywodraeth y Cynulliad, ar y cyd â'r Comisiynydd Plant, yn ystyried arferion gorau o ran cefnogi plant sy'n derbyn gofal sydd ag anghenion addysgol arbennig, gan gynnwys sut y maent yn cael mynediad i'r trefniadau asesu statudol.

[28] Rydym yn argymell y dylai'r Gweinidog dros Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau roi ymateb cychwynnol i'r adroddiad hwn cyn pen chwe wythnos yn unol â'r protocol y cytunwyd arno, ac y dylai adrodd i'r Pwyllgor ar hynt y broses o roi'r trefniadau gwell ar waith, gan gynnwys adroddiad arall ar yr argymhellion yn Rhan 1 yr adolygiad hwn, cyn pen 12 mis.

Atodiad A

Rhestr o'r Ymatebwyr i'r Ymgynghoriad

BATOD Cymru - Cymdeithas Brydeinig Athrawon Plant a Phobl Ifanc Byddar Cymru
Coleg Brenhinol y Therapyddion Iaith a Lleferydd
Cymdeithas Genedlaethol ar gyfer Plant Dawnus
Cymdeithas Genedlaethol Awstistiaeth
Cymdeithas Genedlaethol Cynghorwyr, Arolygwyr ac Ymgynghorwyr Addysg
Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon, Cymru
Cymdeithas Spina Bifida a Hydroceffalws
Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
Cyngor Gwynedd
Cyngor Sir Powys
ELWa
Ffederasiwn Rhieni Caerdydd a'r Fro
Gwasanaethau Partneriaethau Rhieni Sir y Fflint
Gyrfa Cymru
Mencap
Mudiad Ysgolion Meithrin
RhAG- Rhieni dros Addysg Gymraeg
Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol Pobl Fyddar a Thrwm eu Clyw
Undeb Cenedlaethol yr Athrawon, Cymru
Y Comisiwn Hawliau Anabledd
Ymddiriedolaeth GIG Abertawe
Ymddiriedolaeth GIG Bro Morgannwg
Ymddiriedolaeth GIG Caerdydd a'r Fro
Ymddiriedolaeth GIG Ceredigion a Chanolbarth Cymru
Ymddiriedolaeth GIG Gogledd Ddwyrain Cymru
Ymddiriedolaeth GIG Pen-y-bont ar Ogwr
Ymddiriedolaeth GIG Pontypridd a Rhondda
Ymddiriedolaeth GIG Sir Benfro a Derwen

Sylwch mai dim ond rhestr o'r sefydliadau penodol a ymatebodd i'r holiadur AAA yw'r uchod. Llenwyd yr holiadur yn ddienw gan aelodau'r cyhoedd a rhieni hefyd.

Atodiad B

Adolygiad Polisi - Anghenion Addysgol Arbennig

Ymatebion i'r ymgynghoriad

Isod, amlinellir y prif bwyntiau a gododd o'r ymgynghoriad.

Beth yw manteision ac anfanteision y broses asesu gyfredol?

Manteision

- Mae problemau ac anghenion y plentyn yn cael eu nodi, eu cydnabod a'u hasesu;
- Ceir proses ar gyfer cynnal adolygiadau rheolaidd;
- Cynhelir asesiad ffurfiol a chynhwysfawr ac mae'r holl wasanaethau'n cyfrannu ato;
- Mae rhieni'n cyfrannu at y broses;
- Mae arferion safonol cenedlaethol ar waith;
- Mae i'r datganiadau statws cyfreithiol;
- Mae datganiadau yn sicrhau bod y cymorth a'r adnoddau angenrheidiol yn cael eu darparu;
- Mae'r broses yn tawelu meddwl rhieni;
- Darperir cymorth cyfreithiol i rieni a cheir proses apêl glir.

Anfanteision

- Mae'r broses yn araf, yn gymhleth, yn drafferthus, yn rhy fiwrocrataidd ac yn gostus;
- Gall fod prinder adnoddau i fodloni'r anghenion a nodwyd;
- Gall y broses fod yn gymhleth, gall esgor ar wrthdaro a gall beri rhwystredigaeth a gofid i rieni;
- Gall fod yn system anghyfartal. Gall rhieni mwy huawdl ac abl ddefnyddio'r system yn well nag eraill;
- Mae perygl bod stigma yn gysylltiedig â'r broses ac y caiff plentyn ei labelu o'r herwydd;
- Nid yw rhieni bob amser yn cael eu cynnwys yn y broses yn briodol;
- Mae'r broses yn amharu ar y gwaith o ddarparu gwasanaethau;
- Gall y broses esgor ar densiynau rhwng asiantaethau ac ysgolion a rhieni;
- Nid oes digon o adnoddau ar gael;
- Mae'r adnoddau prin yn cael eu neilltuo'n bennaf ar gyfer y nifer fechan o blant a phobl ifanc sydd â datganiadau.

A ddylid diddymu datganiadau o anghenion addysgol arbennig – pam ddylid gwneud hynny neu pam na ddylid gwneud hynny?

Er gwaethaf yr anfanteision a amlinellwyd uchod, roedd mwyafrif yr ymatebion yn nodi na ddylid diddymu datganiadau am y rhesymau a ganlyn:

- Maent yn ffordd o sicrhau gwasanaethau ac maent yn tawelu meddwl rhieni;
- Maent yn arbennig o bwysig i'r rheini sydd ag anghenion mwy cymhleth;
- Mae angen rhoi sicrwydd i rieni y caiff anghenion eu plant eu bodloni. Tybir na fyddai hynny'n digwydd pe na bai ganddynt ddatganiad.

Dyma'r rhesymau a nodwyd gan y rheini oedd am ddiddymu'r datganiadau:

- Maent yn anhyblyg;
- Byddai modd defnyddio'r cyllid at ddibenion gwell.

Pe câi'r broses ddatganiadau ei diddymu, beth ddylid ei roi yn ei lle?

- System gadarn;
- Asesiad amlasiantaeth;
- System ag iddi sylfaen gyfreithiol;
- System sy'n llai biwrocrataidd ac sy'n fwy cryno;
- System sy'n canolbwyntio ar y plentyn;
- System asesu safonol;
- Rhywbeth tebyg i'r system gyfredol ag iddo'r un statws;
- System y neilltuwyd adnoddau digonol ar ei chyfer;
- System sy'n fwy hwylus i rieni ac sy'n darparu mwy o eiriolaeth i rieni.

A yw'n hawdd cael gafael ar wybodaeth am y broses asesu statudol ac a yw'r wybodaeth yn hawdd ei deall?

Roedd mwyafrif y rhai a ymatebodd yn credu bod y wybodaeth yn hawdd ei deall, ond roedd tua 10% ohonynt yn anghytuno. Ymhlith y sylwadau eraill yr oedd:

- Gall gwybodaeth amrywio o ardal i ardal ac o ysgol i ysgol;
- Gall beri dryswch i rieni a dylai'r wybodaeth fod yn fwy eglur ac yn haws ei deall;
- Dylid annog rhieni i ddefnyddio SNAP Cymru.

A oes cymorth ar gael yn hwylus ar gyfer rhieni/gofalwyr plant a phobl ifanc sy'n destun asesiad statudol ar hyn o bryd?

Dywedodd y mwyafrif fod gwybodaeth ar gael gan SNAP Cymru a sefydliadau gwirfoddol eraill. Nid oedd wyth o'r rhai a ymatebodd yn credu bod gwybodaeth ar gael yn hwylus. Roedd tri ohonynt yn credu bod y wybodaeth a ddarperir yn amrywio o ardal i ardal.

A yw'r cymorth a ddarperir ar gyfer plant a phobl ifanc sydd â datganiad o anghenion addysgol arbennig yn briodol ac yn amserol?

Cafwyd cydbwysedd o ran sylwadau cadarnhaol a negyddol. Roedd nifer y bobl a oedd yn cytuno bod y cymorth a ddarperir yn briodol ac yn amserol yn debyg i'r nifer a oedd yn anghytuno â'r datganiad hwnnw. Roedd naw ohonynt o'r farn bod hyn yn amrywio o ardal i ardal. Ymhlith y sylwadau a wnaed yr oedd:

- Mae'r cymorth a ddarperir yn dibynnu ar y rhieni a'u gallu i frwydro i gael y cymorth hwnnw;
- Ceir rhestrau aros hir i gael rhai therapïau;
- Mae'r broses yn rhy araf;
- Gall y cymorth fod yn briodol, ond nid yw o reidrwydd yn amserol.

A yw'r cymorth a ddarperir i blant a phobl ifanc sydd ag anghenion addysgol arbennig ond nad oes ganddynt ddatganiad yn briodol ac yn amserol?

Nid oedd y mwyafrif yn credu bod y cymorth a ddarperir i rai heb ddatganiad yn briodol ac yn amserol. Roedd nifer tebyg o'r farn bod y cymorth a ddarperir yn amrywio o ysgol i ysgol ac o un awdurdod lleol i'r llall. Ymhlith y sylwadau a wnaed yr oedd:

- Mae angen mwy o adnoddau;
- Gall Gweithredu gan yr Ysgol a Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy fod yn ddefnyddiol.

Rhowch enghreifftiau o arferion gorau o ran cydweithio rhwng awdurdodau addysg lleol ac awdurdodau iechyd ym maes asesiadau statudol.

Ymhlith y sylwadau a wnaed yr oedd:

- Gall awdurdodau gydweithio'n effeithiol mewn rhai ardaloedd;
- Ceir enghreifftiau da o gydweithio ym maes therapi lleferydd ac iaith;
- Mae hyn yn amrywio o ardal i ardal;
- Ceir cydweithio effeithiol rhwng ysgolion a seicolegwyr;
- Gwneir gwaith da ym maes nam ar y synhwyrau;
- Ceir cynlluniau pontio ar lefel sir mewn rhai ardaloedd.

A oes gwybodaeth a chymorth ar gael yn hwylus drwy gyfrwng y Gymraeg ar gyfer rhieni/gofalwyr plant a phobl ifanc sy'n destun asesiad statudol ar hyn o bryd?

Cafwyd trideg o ymatebion i'r cwestiwn hwn ac roedd y mwyafrif yn teimlo bod gwybodaeth ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg. Dim ond pedwar oedd yn teimlo nad oedd gwybodaeth o'r fath ar gael. Roedd nifer o'r ymatebion yn nodi bod prinder gweithwyr proffesiynol sy'n siarad Cymraeg.

Pa gamau y byddech yn eu croesawu ar fyrder er mwyn gwella'r broses asesu statudol?

- Proses gyflymach a symlach;
- Rhagor o wybodaeth am y broses;
- Dull asesu amlasiantaeth;
- Datganiadau sy’n parhau ar ôl 16 oed;
- Mwy o gymorth i deuluoedd;
- Mwy o adnoddau ar gyfer y broses;
- Proses sy'n canolbwyntio mwy ar y plentyn.

Atodiad C

Dyddiad	Enw'r Papur/Sefydliad	Cyfeirnod y Papur
19 Ionawr 2005	Y Cylch Gorchwyl a'r Rhaglen Dros Dro	ELL(2)-01-05(p2)
9 Chwefror 2005	Y Cylch Gorchwyl diwygiedig	ELL(2)-02-05(p7)
9 Mawrth 2005	Tudalen We Ddrafft ar gyfer E-ddemocratiaeth	ELL(2)-03-05(p7)
20 Ebrill 2005	Anghenion Addysgol Arbennig (AAA): Papur Cefndir Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau	ELL(2)-04-05(p2)
20 Ebrill 2005	Papur gan SNAP Cymru (Saesneg yn unig)	ELL(2)-04-05(p3)
26 Mai 2005	Papur gan ESTYN	ELL(2)-06-05(p1)
26 Mai 2005	Cyflwyniad PowerPoint gan ESTYN	ELL(2)-06-05(p1)
26 Mai 2005	Papur gan Gymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru (Saesneg yn unig)	ELL(2)-06-05(p2)
8 Mehefin 2005	Cyflwyniad PowerPoint gan Dribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru (Saesneg yn unig)	ELL(2)-07-05
29 Mehefin 2005	Coleg y Therapyddion Galwedigaethol (Saesneg yn unig)	ELL(2)-08-05(p3)
29 Mehefin 2005	Awtistiaeth a'r Gymdeithas Awtistiaeth Genedlaethol (Saesneg yn unig)	ELL(2)-08-05(p3a)
21 Medi 2005	Tystiolaeth lafar gan y Farwnes Warnock	ELL(2)-09-05
21 Medi 2005	*Nodyn ar ymweliad y Pwyllgor â'r Alban i gasglu ffeithiau*	ELL(2)-09-05(p6)
29 Medi 2005	Cyflwyniad gan Broject Dyslecsia Cymru (Saesneg yn unig)	ELL(2)-10-05(p1)
29 Medi 2005	Cyflwyniad gan Awtistiaeth Cymru (Saesneg yn unig)	ELL(2)-10-05(p1)

13 Hydref 2005	Tystiolaeth lafar gan Gydgysylltwyr Anghenion Addysgol Arbennig	ELL(2)-11-05
9 Tachwedd 2005	Tystiolaeth lafar gan RHAG (Rhieni Dros Addysg Gymraeg); Mudiad Ysgolion Meithrin a Swyddfa'r Comisiynydd Plant	ELL(2)-12-05
30 Tachwedd 2005	Coleg Brenhinol y Therapyddion Iaith a Lleferydd	ELL(2)-13-05(p2)
30 Tachwedd 2005	PowerPoint gan Grŵp Ymgynghorol Cymru ar Anghenion Addysgol Arbennig	ELL(2)-13-05
30 Tachwedd 2005	Papur gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) (Saesneg yn unig)	ELL(2)-13-05(p11)

Atodiad D

Aelodau'r Grŵp Cyfeirio

Enw	**Corff**
John V Williams	Awdurdod Cymwysterau, Cwricwlwm ac Asesu Cymru (ACCAC)
Dr Gareth Price	Is-grŵp AAA, Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru (ADEW)
Julia Nawell /Jane Marshall	Grŵp Therapi Lleferydd ac Iaith Cymru Gyfan / Gwasanaethau Therapi Lleferydd ac Iaith i Blant Ymddiriedolaeth GIG Caerdydd a'r Fro
Peter Hosking	Swyddfa Comisiynydd Plant Cymru
Gareth Foulkes	Comisiwn Hawliau Anabledd (Cymru)
Hilary Anthony	Estyn – Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Nicola Jones	Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru
Michael Edwards	Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru
Chris Major	Pennaeth, Ysgol Arbennig Heronbridge
Dr Sian Munro	Pennaeth y Ganolfan: Therapi Lleferydd ac Iaith, Ysgol Iechyd a Gwyddorau Cymdeithasol, Athrofa Prifysgol Cymru, Caerdydd (UWIC)
Andrea Miller / Catrin Redknap	Bwrdd yr Iaith Gymraeg
Denise Inger	Prosiect Cynghori Cymru ar Anghenion Arbennig (SNAP Cymru)
Mair Watkins / Alan Lansdown	Grŵp Cynghori Cymru ar AAA (WAGSEN)
Louise Roberts	Cymdeithas Genedlaethol Anghenion Addysgol Arbennig (NASEN) Cymru

Atodiad E

Rhestr o Dermau

ADHD	Anhwylder Diffyg Canolbwyntio a Gorfywiogrwydd
BECTa	Asiantaeth Technoleg a Chyfathrebu Addysgol Prydain
CAs	Academïau Dinas
CAHMS	Strategaeth/Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed
CHC	Cyngor Iechyd Cymuned
CTC's	Colegau Technoleg Dinas
DCD	Anhwylder yn y Sbectrwm Awtistig neu Anhwylder Cydgysylltu Datblygiad
EBD	Anawsterau Emosiynol ac Ymddygiadol
Gweithredu yn y Blynyddoedd Cynnar a Mwy	Cyngor a chefnogaeth i ymarferwyr addysg trwy Weithredu yn y Blynyddoedd Cynnar
Partneriaethau Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant	Adolygu a yw cynlluniau datblygu ysgolion meithrin a blynyddoedd cynnar pob AALl yn ddigonol
EMAS	Gwasanaeth Cyrhaeddiad y Lleiafrifoedd Ethnig
HPC	Cyngor Proffesiynau Iechyd
IPS	Cefnogwr Rhiant Unigol
IEP	Cynllun Addysg Unigol
AALl	Awdurdod Addysg Lleol
BILl	Bwrdd Iechyd Lleol
LSA	Cynorthwy-ydd Cymorth Dysgu
NASEN	Cymdeithas Genedlaethol Anghenion Addysgol Arbennig
PPS	Gwasanaethau Partneriaethau â Rhieni
Portage	Cynllun o gymorth addysgol yn y cartref i blant cyn ysgol ag AAA
PMLD	Anawsterau dysgu dwys a lluosog
Uned Cyfeirio Disgyblion (UCD)	Unedau sydd wedi'u darparu'n arbennig i ddisgyblion na fyddent fel arall yn gallu cael addysg oherwydd salwch, eu hallgáu neu am reswm arall.
RCSLT	Coleg Brenhinol y Therapyddion Lleferydd ac Iaith

SALTAG	Cynllun Gweithredu Therapi Lleferydd ac Iaith
AAA	Anghenion Addysgol Arbennig
SENCO	Cydgysylltydd AAA
SENDIST	Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig ac Anabledd
SIG	Grŵp Buddiant Arbennig
SLCD	Anawsterau Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu
WAGSEN	Grŵp Cynghori Cymru ar Anghenion Addysgol Arbennig
WIHSC	Sefydliad Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cymru
WLSLTC	Pwyllgor Therapi Lleferydd ac Iaith Cyfrwng Cymraeg